# Cofnodion Grŵp Trawsbleidiol

## Cofnodion cyfarfod:

| | |
|---|---|
| **Teitl y grŵp trawsbleidiol:** | Trafnidiaeth Gyhoeddus |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 3 Mai 2023 |
| **Lleoliad:** | Teams |

## Yn bresennol:

Aelodau o'r Senedd a'u staff cymorth:

| | |
|---|---|
| Carolyn Thomas (Cadeirydd) | Llafur |
| Jack Sargeant | Llafur |
| Huw Irranca-Davies | Llafur |
| Altaf Hussain | Ceidwadwyr |
| Andrew Jenkins | Swyddfa Sioned Williams (Plaid Cymru) |
| Billy Jones | Swyddfa Luke Fletcher (Plaid Cymru) |
| Ioan Bellin | Swyddfa Rhys Ab Owen AS (Plaid Cymru) |
| Beth Taylor | Swyddfa Grŵp y Ceidwadwyr |
| Helen Boggins | Vikki Howells (Llafur) |

Unigolion Allanol:

| Enw: | Sefydliad |
|---|---|
| Aaron Hill (Ysgrifenyddiaeth) | Cydffederasiwn Cludiant Teithwyr Cymru (CPT Cymru) |
| David Beer | Ffocws ar Drafnidiaeth |
| Y Cynghorydd William Denston Powell | Ffocws ar Drafnidiaeth |
| Tim Peppin | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Peter Kingsbury | Railfuture Cymru |
| Barclay Davies | Defnyddwyr Bysiau Cymru |
| Sian Donovan | Pedal Power |
| Martin Murphy | Undeb Unite |
| Sue Arrowsmith | |

| | |
|---|---|
| Kaarina Ruta | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Adam Keen | |
| Lee Robinson | Trafnidiaeth Cymru |
| | |
| Scott Pearson | Newport Transport |
| Chris Owens | Coach Tourism Association (CTA) |

## Ymddiheuriadau:

| **Enw:** | **Teitl:** |
|---|---|
| Peredur Owen Griffiths AS | Plaid Cymru |
| Luke Fletcher AS | Plaid Cymru |
| Natasha Asghar AS | Ceidwadwyr |
| Andrew Morgan | Uwcharolygydd Cymru a'r Gororau, Heddlu Trafnidiaeth Prydain |
| Lewis Brencher | Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu, Trafnidiaeth Cymru |
| Colin Thomas | Rheolwr Masnachol, Bws Casnewydd |
| John Williams | Williams Coaches |

## Crynodeb o'r cyfarfod:

- Agorodd Carolyn Thomas y cyfarfod, gan groesawu'r aelodau i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol eleni.
- Ethol ysgrifenyddiaeth – Gofynnwyd am enwebiadau ar gyfer ysgrifenyddiaeth y grŵp. Cafodd Aaron Hill ei enwebu gan Carolyn Thomas, a chytunodd y rhai a oedd yn bresennol ar yr enwebiad.
- Ethol Cadeirydd – Gofynnwyd am enwebiadau ar gyfer Cadeirydd y grŵp. Cafodd Carolyn Thomas ei henwebu gan Jack Sargeant AS, a chytunodd y rhai a oedd yn bresennol ar yr enwebiad.
- Cyflwynodd y Cadeirydd ddau siaradwr ar gyfer y drafodaeth ar ddyfodol y diwydiant bysiau yng Nghymru. Rhoddwyd y cyflwyniad cyntaf gan Tim Peppin o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Yn ei gyflwyniad, soniodd Tim am y pwyntiau a ganlyn:
    a. Materion amgylcheddol ehangach y mae'r diwydiant bysiau yn eu hwynebu.
    b. Y ffaith bod ymddygiadau a welwyd yn ystod y pandemig wedi parhau – siopa yn cael ei ddosbarthu, pobl yn gweithio gartref ac ati.

   Mae'r pethau hyn i gyd wedi effeithio ar y niferoedd sy'n defnyddio bysiau.
   c. Y ffaith bod arnom angen system drafnidiaeth sy'n ein symud tuag at fod yn gymdeithas fwy cyfartal, ffyniannus ac iach.
   d. Cynigion ar fasnachfreinio – yr egwyddor o symud i ffwrdd o rwydwaith masnachol a thuag at rwydwaith mwy cynlluniedig, gyda'r nod o ystyried anghenion pobl a mynd i'r afael ag anfantais.
- Cyflwynodd y Cadeirydd yr ail siaradwr, sef Aaron Hill, cyfarwyddwr CPT Cymru. Yn ei gyflwyniad, soniodd Aaron am y pwyntiau a ganlyn:
   a. Effaith enfawr y pandemig: Cyfnodau clo llymach yng Nghymru; newidiadau mewn arferion pobl yn ymwreiddio, megis gweithio gartref; teithwyr sy'n defnyddio tocynnau rhatach yn defnyddio bysiau yn llai aml – 40-50 y cant o'r lefelau a welwyd cyn y pandemig.
   b. Pwysigrwydd y diwydiant bysiau: defnyddwyr bysiau yn cyfrannu £64 biliwn o werth ychwanegol at economi y DU bob blwyddyn. Mae 60 y cant o'r holl deithiau a wneir ar drafnidiaeth gyhoeddus yn digwydd ar fws. Dywedodd 35 y cant o ddefnyddwyr bysiau fod teithiau bws yn helpu eu hiechyd meddwl. Bysiau yn cynnig llwybr allan o unigedd.
   c. Heriau ariannu: Llymder, effaith y pandemig, diwedd y Cynllun Brys ar gyfer Bysiau – swm o £150 miliwn wedi'i ddarparu dros 3 blynedd.
   d. Heriau yn ymwneud â diwedd y Cynllun Brys ar gyfer Bysiau: Bydd rhwng 15 y cant a 20 y cant o'r holl wasanaethau bysiau yng Nghymru yn cael eu torri pan ddaw'r Cynllun Brys ar gyfer Bysiau i ben. Mae swyddi 300-400 o yrwyr bysiau mewn perygl. Dim ond 20 y cant o wasanaethau fydd yn aros yr un fath.
   e. Beth yw barn pobl Cymru? Pe na bai teithio ar fws yn opsiwn, byddai 41 y cant o bobl yn newid eu dull teithio ac yn defnyddio car; byddai 28 y cant yn poeni am eu gallu i ganfod dewis amgen; byddai 54 y cant yn pryderu am y ffaith y byddai teithio'n mynd yn fwy anodd; byddai 92 y cant yn pryderu y byddai teithio i'r gwaith neu leoliad addysg yn mynd yn ddrytach pe bai gwasanaethau'n cael eu torri.
   f. Ble nesaf? Os yw gyrwyr yn gadael y diwydiant ac os yw teithwyr yn colli'r arfer o ddal y bws, bydd yn fwy anodd cyflawni dyheadau o ran newid moddol. Ymgyrch #BackTheBus – yr amseru yn bwysig.
- Agorodd y Cadeirydd y drafodaeth i'r llawr, gan wahodd sylwadau ar y pynciau a godwyd yn ystod y cyflwyniadau:
   a. Andrew Jenkins – pwynt ynglŷn ag ymgyrch #BackTheBus: mae'n gyfaddawd rhwng gweithredu yn awr i ychwanegu rhywfaint o wytnwch, neu aros i weld beth yw'r sefyllfa ar ôl i'r Cynllun Brys ar gyfer Bysiau ddod i ben. Os yw'n fater o aros i weld beth yw'r sefyllfa o ran cyllid ar ôl mis Gorffennaf, gellir cynnal sgyrsiau yn y cyfnod dan sylw er mwyn llunio cynllun. Mae hwn yn gwestiwn ynghylch y graddau yr ydym yn gwerthfawrogi bysiau. Un o fanteision gweithredu yn awr yw'r ffaith bod pobl yn siarad am y mater. Os byddwn yn aros yn rhy hir, bydd y sgwrs yn newid ac ni fydd y mater bellach yn flaenoriaeth.

b. Martin Murphy, Unite. Unite – wedi lansio ymgyrch #BackTheBus, yn sgil pryderon am swyddi a gyrwyr. Mae gyrwyr yn cael eu gweld fel ôl-ystyriaeth. Felly, roedd yn falch bod y mater hwn bellach yn cael ei ystyried. Mae gyrwyr yn meddwl gadael y diwydiant yn sgil ansefydlogrwydd.
c. Barclay Davies – yn cynnal ymgyrch i hyrwyddo gwasanaethau bysiau. Digwyddiadau yn Nyffryn Conwy – gwasanaethau bysiau yn cael eu colli. Roedd pobl a ddywedodd eu bod yn dal y bws yn datgan mai, o bryd i'w gilydd, dyna'r unig ryngweithio dynol yr oeddent yn ei gael yn ystod y dydd. Mae toriadau yn arwain at ganlyniadau. Mae pobl yn pryderu am gyrraedd apwyntiadau â meddygon a deintyddion, ac yn poeni am wneud eu siopa a gweld eu teuluoedd. Pan fydd gwasanaethau'n cael eu torri, mae'n bwysig rhoi sylw i ddefnyddwyr a'u hopsiynau.
d. Chris Owens – Alpine Travel, Gweithredwr Coetsis yn Llandudno. Roedd o'r farn nad yw gwleidyddion yn deall goblygiadau eu sgyrsiau. Mae gyrwyr bysiau yn gadael y sector yn sgil ansicrwydd, ac yn mynd i yrru coetsis. Mae'r sgwrs wleidyddol yn wenwynig, gan achosi anawsterau i staff a theithwyr fel ei gilydd. Nid yw coetsis erioed wedi bod yn fwy prysur. Mae'r syniad nad yw pobl yn fodlon teithio yn wallus. Mae'r un cwsmeriaid bellach yn teithio ar goetsis. Mae angen mwy o ymgysylltu â sefydliad Trafnidiaeth Cymru ac awdurdodau lleol.
e. David Beer – Ffocws ar Drafnidiaeth: Mae angen i sefydliad Trafnidiaeth Cymru ymgysylltu â chymunedau, ac mae angen cydweithio wrth ymgyrchu. Mae angen i'r ymgyrch gefnogi gwasanaethau sy'n bodoli ar hyn o bryd. Rhaid ystyried pwysigrwydd cost, cyfleustra, hyder a chymhlethdod o ran annog pobl i deithio ar y bws eto.
f. Scott Pearson: Dylai pob aelod o'r Cabinet edrych ar y gyllideb a sylweddoli y bydd y toriadau hyn yn effeithio ar bob portffolio. Dylai'r trefniadau ariannu barhau tan fis Ebrill y flwyddyn nesaf, a hynny er mwyn rhoi cyfle i bobl asesu'n briodol yr effaith ar gyllidebau adrannol.

- Cytunodd y Cadeirydd i ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog, gan roi trosolwg o'r eitemau a drafodwyd yn ystod y cyfarfod.
- Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben.